Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Teithio LLesol

## Adroddiad Blynyddol 2016/17




Hydref 2017

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Rhagair | 4 |
| 1. Diben | 5 |
| 2. Arweinyddiaeth | 6 |
| 3. Deddfwriaeth, Safonau a Dulliau | 7 |
| 4. Seilwaith | 9 |
| 5. Hyrwyddo a Newid Ymddygiad | 11 |
| 6. Sgiliau a Hyfforddiant | 14 |
| 7. Monitro a Gwerthuso | 16 |
| Atodiad – Y diweddaraf am y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol | 17 |

# Rhagair

Dyma'r ail adroddiad ers i'r Ddeddf Teithio Llesol ddod i rym a'r cyntaf ers imi dderbyn y cyfrifoldeb dros Deithio Llesol ym mis Mai 2016.

Bu 2016/17 yn flwyddyn bwysig o ran gweithredu'r Ddeddf. Cafodd y gyfres gyntaf o Fapiau Llwybrau Presennol ar gyfer y 142 o drefi a dinasoedd ledled Cymru, sy'n 'lleoliadau dynodedig' o dan y Ddeddf eu cymeradwyo. Dyma'r pwynt cychwyn gwirioneddol ar gyfer datblygu seilwaith cerdded a beicio o safon uchel yng Nghymru. Eleni fe ddechreuodd y gwaith ar y cynlluniau ar gyfer rhwydweithiau integredig ym mhob un o'r mannau hyn. Bydd y Mapiau Rhwydwaith Integredig dilynol yn pennu'r cynlluniau y bydd yr awdurdodau lleol yn ceisio eu cwblhau dros y blynyddoedd nesaf, gan gynnwys uchelgeisiau mwy hirdymor ar gyfer y llwybrau teithio llesol.

Mae'n hanfodol bod awdurdodau lleol wedi nid yn unig gysylltu â phobl sydd eisoes yn cerdded ac yn beicio ond eu bod hefyd wedi edrych am ffyrdd effeithiol o gynnwys pobl nad ydynt yn cerdded neu'n beicio'n rheolaidd ar hyn o bryd, ac wedi chwilio am ffyrdd o gynnwys y bobl hynny nad ydynt yn cerdded neu feicio yn rheolaidd. Oherwydd hyn, rwyf eisoes wedi ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r mapiau i 3 Tachwedd 2017 ar gyfer pob awdurdod er mwyn sicrhau ymgynghoriad a thrafodaethau ystyrlon heb eu tarfu gan y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â chyfnod etholiadau llywodraeth leol eleni.

Mae fy swyddogion wedi gweithio gyda'r awdurdodau lleol a phartneriaid i greu'r ddeddfwriaeth, trwy ddarparu cyngor ar gamau allweddol a galluogi cyfnewid profiad yn ystod y cyfnod cyntaf hwn o weithredu'r ddeddfwriaeth, sy'n unigryw ledled y byd.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) a'i hamcanion llesiant bellach yn llunio ein blaenoriaethau ni a chyrff eraill y sector cyhoeddus. Mae annog teithio llesol yn golygu ein bod yn cyfrannu at bob un o'r saith nod llesiant, ac mae'n cynnig cyfleoedd enfawr ar lefel genedlaethol a lleol. Edrychwyd ar sut y gellid gwneud hyn mewn modd ymarferol yn ein cynhadledd lwyddiannus yn gynharach eleni.

Ar draws adrannau, rydym wedi bod yn edrych ar ffyrdd o gynnwys teithio llesol yn ein polisïau, ein cynllunio a'n rhaglenni i gael pobl i gerdded a beicio. Rydym eisoes wedi cryfhau ein polisïau a'n canllawiau cynllunio ac yn ei gynnwys yn ein dull o werthuso prosiectau cyfalaf. Rydym wedi parhau i fuddsoddi symiau sylweddol yn y seilwaith teithio llesol; mewn grantiau ar gyfer prosiectau lleol a'n rhwydwaith ein hunain, gan gynnwys y llwybr beicio gwerth £5 miliwn a adeiladwyd fel rhan o Ffordd Gyswllt Dwyrain y Bae.

Mae ein rhaglen uchelgeisiol Teithiau Iach wedi gwneud gwahaniaeth gwirioneddol yn yr ysgolion sy'n cymryd rhan, gyda llawer mwy o blant yn dewis cerdded, mynd ar sgwter neu feicio i'r ysgol. I ategu'r Teithiau Iach, rydym wedi comisiynu pecyn Cerdded i'r Ysgol y gall pob ysgol a'r gymuned yn ehangach ei ddefnyddio i edrych ar lwybrau cerdded i'r ysgol a gweld sut y gellid eu gwella i ddileu rhwystrau.

Gan nad yw'r cylch gweithredu llawn wedi ei gwblhau eto, nid yw'r Ddeddf Teithio Llesol wedi gallu cael effaith fesuradwy eto ar lefelau cerdded a beicio. Rydym yn benderfynol o wyrdroi tueddiadau ehangach byd-eang sy'n golygu bod llai o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgarwch gorfforol, ac yn benodol i annog a galluogi pobl Cymru i wneud llawer mwy o deithiau bob dydd drwy gerdded a beicio.

Mae'r penderfyniad hwn yn amlwg yn ein strategaeth genedlaethol "Ffyniant i Bawb", sy'n ymrwymo i ddarparu rhwydwaith trafnidiaeth cyhoeddus integredig ac i gyfuno pob mathau o drafnidiaeth gyda cherdded a beicio. Bydd gwella'r seilwaith ar gyfer teithio llesol yn galluogi pobl i fabwysiadu ffyrdd o fyw mwy egnïol a chynyddu'r gweithgarwch corfforol yn eu bywydau o ddydd i ddydd.

Byddwn yn gweithio hyd yn oed yn galetach ar draws y Llywodraeth, gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i sicrhau bod plant ac oedolion ledled Cymru yn fwy egnïol, trwy wneud cerdded a beicio bob dydd yn ddewis hawdd, naturiol, a'r un sy'n fwyaf o hwyl iddynt.

**Rebecca Evans AC**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol



## 1. Diben

Mae Llywodraeth Cymru am gael mwy o bobl i gerdded a beicio yng Nghymru er mwyn sicrhau'r manteision niferus a ddaw o ganlyniad i deithio llesol, i unigolion ac i gymdeithas. Cafodd Deddf Teithio Llesol (Cymru) Gydsyniad Brenhinol ym mis Tachwedd 2013, a daeth i rym ym mis Medi 2014. Mae'n paratoi'r ffordd ar gyfer newid y ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn adeiladu'r seilwaith cerdded a beicio yng Nghymru yn yr hirdymor.

Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn ei wneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru 'lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar i ba raddau y mae cerddwyr a beicwyr yn gwneud teithiau llesol yng Nghymru.' Yn ogystal â darparu'r data hwn, mae'r adroddiad blynyddol hefyd yn ein diweddaru ar y cynnydd o ran gweithredu'r Ddeddf a gweithredu ehangach ym maes Teithio Llesol yn ystod 2016/17. Mae'r adroddiad hwn yn dilyn y strwythur ar gyfer y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol.

## 2. Arweinyddiaeth



### Arweinyddiaeth Gweinidogol ar gyfer Teithio Llesol

Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016, mae'r agenda teithio llesol yn cael ei gefnogi gan ddau aelod y Llywodraeth, gan adlewyrchu ei natur drawsbynciol.

Mae gan y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd y Cyhoedd, Rebecca Evans AC, gyfrifoldeb cyffredinol i weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ac i hyrwyddo cerdded a beicio. Caiff mapiau'r awdurdodau lleol a baratowyd o dan y Ddeddf eu cyflwyno i'r Gweinidog i'w cymeradwyo.

Mae gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a'r Seilwaith, Ken Skates, AC, gyfrifoldeb dros gyflawni dyletswyddau Llywodraeth Cymru o dan ei Deddf Teithio Llesol i'r graddau y maent yn gysylltiedig â swyddogaethau yr awdurdod priffyrdd. Mae Ysgrifennydd y Cabinet yn darparu cyllid ar gyfer y seilwaith teithio llesol, gan gynnwys cyllid grant ar gyfer awdurdodau lleol, ac mae'n gyfrifol am y safonau ar gyfer seilwaith teithio llesol yng Nghymru.

### Y Cynllun Gweithredu ar Deithio Llesol

Cafodd y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2016. Mae'n ategu y broses o roi Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ar waith ac yn pennu camau ehangach ar draws ystod eang o adrannau'r Llywodraeth i gael mwy o bobl i gerdded a beicio yng Nghymru. Mae'n cynnwys 28 o gamau o dan 6 thema, sydd wedi'u defnyddio i gael strwythur i'r adroddiad. Mae'r diweddariadau ar y prif gamau wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn ac mae crynodeb llawn wedi'i chynnwys yn Atodiad 1.

### Y Bwrdd Teithio Llesol

Sefydlwyd y Bwrdd Teithio Llesol ar ddechrau 2014 i gydlynu'r gweithgarwch i gefnogi y broses o weithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn effeithiol. Mae'n rhoi cyngor i'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd y Cyhoedd, fydd yn bresennol ar y Bwrdd pan fo hynny'n bosibl. Mae uwch swyddog yn ei gadeirio ar ran y Gweinidog. Mae'r aelodau yn cynrychioli adrannau allweddol y llywodraeth (Iechyd, Addysg, Adnoddau Naturiol, yr Economi a'r Seilwaith), awdurdodau lleol a phartneriaid y trydydd sector, yn ogystal â Iechyd y Cyhoedd Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn fel arfer. Bu'r Bwrdd o gymorth i ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol, ac mae'n helpu i hyrwyddo Teithio Llesol trwy gynadleddau a digwyddiadau a digwyddiadau eraill.

## 3. Deddfwriaeth, Safonau a Dulliau

### Gweithredu Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013

Cyflwynodd yr awdurdodau lleol eu Mapiau Llwybrau Presennol cyntaf ym mis Ionawr 2016. Yn ystod y cam cyntaf, yn dilyn gwerthusiad o'r mapiau a gyflwynwyd, cafodd pump o fapiau yr awdurdodau eu cymeradwyo o'r cychwyn, a gofynnwyd i'r rhan fwyaf ail-gyflwyno yn dilyn rhai newidiadau. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithdai rhanbarthol i rannu'r hyn a ddysgwyd o'r profiad cychwynnol ac i sicrhau bod pawb yn deall y gofynion. Wedi ail-gyflwyno, cafodd pob un o'r mapiau eu derbyn gan y Gweinidog ym mis Hydref 2016.

Dechreuodd yr Awdurdodau Lleol yna ar gam nesaf gweithredu'r Ddeddf, sef datblygu eu Mapiau Rhwydwaith Integredig. Er mwyn eu cynorthwyo gyda'r cam hwn, cafodd Sustrans eu penodi i weithio'n fanwl gyda rhai awdurdodau lleol ar gamau allweddol ac i ddatblygu cyngor i bob awdurdod ar y sail hynny. Cafodd y cyngor ar arfer gorau ei rannu eto gyda phob awdurdod lleol mewn gweithdai rhanbarthol a'u dosbarthu drwy fwletinau.

Mae'r system fapio a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ac a ddefnyddiwyd gan bob awdurdod lleol i gyflwyno eu Mapiau Llwybrau Presennol eu gwella wedi ymateb i adborth ac i'w gwneud yn barod ar gyfer paratoi Mapiau Rhwydwaith integredig.

Mae'r Data Gofodol yn dangos ardaloedd y 'Lleoliadau Dynodedig' o dan y Ddeddf Teithio Llesol – yr ardaloedd y mae'r dyletswyddau mapio yn berthnasol iddynt – wedi eu hychwanegu at y porthol data gofodol ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, 'Lle' ac mae i'w weld yma: http://lle.gov.wales/catalogue/item/ActiveTravelDesignatedLocalitiesWales/?lang=cy

### Y System Gynllunio

Mae gan y system gynllunio swyddogaeth bwysig o hwyluso teithio llesol ac mae hyn wedi'i adlewyrchu yn y polisi a'r canllaw cynllunio cenedlaethol.

#### Polisi Cynllunio Cymru

Mae Polisi Cynllunio Cymru wedi ei ddiweddaru'n ddiweddar i dynnu sylw at y cysylltiad rhwng y system gynllunio a'r Ddeddf Teithio Llesol. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn tynnu sylw at swyddogaeth y system gynllunio o hyrwyddo teithio llesol a sicrhau llwybrau teithio newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig. Mae Adran 8.2 yn canolbwyntio ar hyrwyddo teithio llesol ac yn datgan:

- Y dylid hyrwyddo cerdded ar gyfer teithiau byrrach. Y dylid ystyried effaith y polisïau a datblygiadau ar gerddwyr. Y dylai awdurdodau cynllunio, gan ystyried gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, hyrwyddo mesurau penodol i helpu cerddwyr gan gynnwys darparu llwybrau diogel, cyfleus sydd ag arwyddion clir.
- Y dylid annog beicio hefyd ar gyfer teithiau byr ac fel opsiwn arall i deithiau byrrach mewn ceir, neu fel rhan o daith hwy wrth ei gyfuno â thrafnidiaeth gyhoeddus. Y dylai awdurdodau lleol, gan ystyried gofynion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013, annog gweithredu mesurau penodol i ddatblygu beicio

diogel, gan gynnwys llwybrau newydd neu well, a chyfleusterau parcio diogel a newid dillad mewn datblygiadau mawr ac ar gyfnewidfeydd trafnidiaeth. Ble y bo'n briodol, dylai awdurdodau cynllunio geisio helpu hefyd gyda chwblhau'r rhwydwaith beicio cenedlaethol, a chysylltiadau allweddol â'r rhwydwaith ac oddi wrth y rhwydwaith. (http://gov.wales/docs/desh/publications/161117ppw-chapter-8-en.pdf)

Mae'r adolygiad a ddaw ar Bolisi Cynllunio Cymru, i adlewyrchu amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn rhoi'r cyfle i gynnig polisi a chanllawiau manylach ar hwyluso teithio llesol trwy'r system gynllunio. Mae'r adolygiad o'r Polisi Cynllunio hefyd yn rhoi'r cyfle i ganolbwyntio mwy ar y Polisi Cynllunio o ran iechyd a chreu lleoedd addas i'r gymuned. Ein nod yw cael system gynllunio i hwyluso'r dull o greu lleoedd cynaliadwy, lleoedd â defnydd cymysg sy'n osgoi yr angen am deithio ac yn hyrwyddo teithio iachach.

## Y Gyfarwyddiaeth Gynllunio

Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 12: Cafodd y dyluniad ei ddiweddaru'n ddiweddar i gyfeirio at y Ddeddf Teithio Llesol ac i dynnu sylw at bwysigrwydd dyluniad a chynllun datblygiad newydd wrth hyrwyddo teithiau llesol a chreu llwybrau teithio llesol newydd a gwell a chyfleusterau cysylltiedig. (http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan12/?skip=1&lang=cy)

TAN 18: Mae'r Adran Drafnidiaeth yn datgan y dylai awdurdodau lleol ystyried anghenion cerddwyr a beicwyr ym mhob penderfyniad sy'n gysylltiedig â chynllunio datblygiad. Mae'n cynnwys canllawiau ar sut y dylai Awdurdodau Cynllunio Lleol hyrwyddo cerdded a beicio wrth baratoi cynlluniau datblygu, canllaw dylunio, prif gynlluniau a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. (http://gov.wales/topics/planning/policy/tans/tan18/?skip=1&lang=cy)

Rydym hefyd yn sicrhau bod canllawiau eraill yr ydym yn eu cynhyrchu, megis y Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun a gyhoeddwyd yn ddiweddar, yn ceisio hwyluso teithio llesol. (http://gov.wales/topics/planning/policy/guidanceandleaflets/site-and-context-analysis-guide/?skip=1&lang=cy)

## Gweithredu

Yr Awdurdodau Cynllunio Lleol yn y lle cyntaf sy'n gyfrifol am weithredu'r system gynllunio o ddydd i ddydd. Maent yn gyfrifol am baratoi cynlluniau datblygu, sy'n pennu eu polisïau ar gyfer defnyddio tir, a phenderfynu ar geisiadau cynllunio. Mae gan Awdurdodau Cynllunio Lleol felly swyddogaeth allweddol i weithredu'r dyheadau o fewn y polisi cynllunio cenedlaethol i'r system gynllunio hwyluso teithio llesol.

Bydd swyddogion ar ran Gweinidogion Cymru yn craffu ar Gynlluniau Datblygu Lleol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â'r polisi cynllunio cenedlaethol. Mae hyn yn golygu cysylltu'n anffurfiol â swyddogion awdurdodau lleol drwy gydol y broses o baratoi'r cynllun, yn ogystal ag yn ffurfiol, drwy sylwadau ble y bo angen, ar gyfnodau'r Strategaeth a Ffefrir a chamau yr ymgynghoriad statudol ar y cynllun adneuo. Pe byddai angen, cyflwynir datganiadau ysgrifenedig yn ystod y

gwrandawiadau ffurfiol a'r archwiliad cyhoeddus, yn ogystal ag ymddangos yn bersonol i gyflwyno'r goblygiadau priodol o ran polisïau.

**Diwygio'r Cwricwlwm**

Bu i'r adroddiad Dyfodol Llwyddiannus gan yr Athro Graham Donaldson dynnu sylw at bedwar diben addysg – un oedd cefnogi plant a phobl ifanc i ddod yn unigolion iach a hyderus. Mae'r pedwar bwriad yn greiddiol i'r cwricwlwm newydd ac yn bwynt cychwyn i bob penderfyniad ar ddatblygu'r cwricwlwm newydd a threfniadau asesu. Hefyd, bydd Iechyd a Lles yn un o'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad fydd yn ganolog i strwythur y cwricwlwm newydd. Caiff y cwricwlwm newydd ei ddatblygu gan athrawon ac ymarferwyr drwy rwydwaith o Ysgolion Arloesi mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru, consortia rhanbarthol, Estyn, Cymwysterau Cymru, Addysg Uwch, busnesau a phartneriaid allweddol eraill.

Hyd at ddiwedd 2016, bu'r Ysgolion Arloesi yn canolbwyntio ar gynllunio strwythur y cwricwlwm ac ystyried dyluniad strategol ac egwyddorion craidd fframwaith y cwricwlwm newydd.Cafodd pedwar gweithgor eu sefydlu i ystyried:

- Asesu a Datblygu
- Cyfrifoldebau Traws-gwricwlaidd
- Cyfoethogi a Phrofiadau
- Y dimensiwn Cymreig, safbwyntiau rhyngwladol a sgiliau ehangach

Cafodd gweithgorau ar gyfer pob un o'r chwech Maes Dysgu a Phrofiad eu sefydlu ym mis Ionawr 2017 i ddatblygu'r dylunio ar lefel uchel ar gyfer yr ardaloedd.

## 4. Seilwaith

Mae grantiau seilwaith i Awdurdodau Lleol sy'n gwneud cyfanswm o dros £11 miliwn wedi eu dyfarnu i gynlluniau teithio llesol ar gyfer 2016-2017 o gyllideb Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith.

Mae hyn yn cynnwys £5 miliwn ar gyfer y grant Llwybrau Diogel mewn Cymunedau. Mae deg ar hugain o gynlluniau ledled Cymru wedi elwa o'r cyllid i wella'r seilwaith teithio llesol yn lleol sy'n gysylltiedig ag ysgolion.

Mae'r cyllid teithio llesol o'r Gronfa Drafnidiaeth Leol yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac yn dibynnu ar natur, maint ac ansawdd y ceisiadau ar gyfer cynlluniau a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol. Roedd un-ar-bymtheg o gynlluniau llwyddiannus o dan y Gronfa Trafnidiaeth Leol yn 2016/17 yn canolbwyntio ar lwybrau Teithio Llesol gyda dyraniad o dros £4 miliwn. Roedd nifer o'r cynlluniau eraill a gymeradwywyd hefyd yn cynnwys elfennau sylweddol o gerdded a beicio.

Hefyd, mae pedwar-ar-bymtheg o awdurdodau lleol wedi derbyn Grant Cyfalaf Diogelwch ar y Ffyrdd o dros £2 filiwn ar gyfer cynlluniau sy'n gwneud gwelliannau i gerddwyr ac/neu feicwyr.

Roedd £200 mil o'r Gronfa Trafnidiaeth Leol yn benodol ar gyfer costau sy'n gysylltiedig â cham Map Rhwydwaith Integredig y Ddeddf. Mae Awdurdodau Lleol wedi derbyn cyfran o £300 mil tuag at eu paratoadau ar gyfer Mapiau Llwybrau Presennol.

Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith hefyd yn ariannu gwelliannau teithio llesol ar gefnffyrdd.

Yn 2016/17 cafodd £0.8 miliwn ei wario i wella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr. Fel rhan o'r rhaglen o waith i wella diogelwch ar lwybrau i'r ysgol sydd ar gefnffyrdd neu yn agos atynt, cafodd £0.66miliwn ei wario ar gynlluniau rhan amser 20mya, yn ogystal â gwaith dylunio i ragor o ysgolion i'w cyflawni yn 2017/18.

Bu i Raglen Gwella Gorsafoedd Metro ariannu £300 mil o welliannau teithio llesol mewn pedair gorsaf reilffordd, oedd yn cynnwys parcio beiciau, llwybrau ac arwyddion gwell.

Mae darparu seilwaith Teithio Llesol newydd a gwell yn rhan annatod o gynlluniau cefnffyrdd newydd mawr. Oherwydd bod y cynlluniau hyn yn cael eu datblygu a'u hadeiladu dros sawl blwyddyn, a'r mesurau teithio llesol yn rhan o gostau cyffredinol y cynllun, nid yw'n bosibl dod i wybod beth yw'r gwariant penodol ar gyfer pob blwyddyn ariannol. Er enghraifft, mae Ffordd Gyswllt Dwyrain Bae Caerdydd yn cynnwys llwybr beicio wedi'i adeiladu ar gost o oddeutu £5 miliwn ac amcangyfrifir bod costau'r cyfleusterau cerdded a beicio sy'n gysylltiedig ag Adrannau 5 a 6 o'r A465 (Dowlais i Hirwaun) yn £6.7 miliwn.

**Llwybrau Cerdded a Beicio Gwledig**

Mae Rhaglen Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid ar gyfer y prosiect "Datblygu y Rhwydwaith Cerdded a Beicio yng Nghefn Gwlad Cymru". Mae'r prosiect eisoes wedi nodi wyth o gynlluniau ledled Cymru i lenwi'r bylchau allweddol hyn yn y rhwydwaith cerdded a beicio cenedlaethol, gan gynnig cyfleoedd newydd i bobl leol ddod o hyd i swyddi, gwasanaethau a chyrchfannau twristaidd gan ddefnyddio trafnidiaeth llesol. Mae'r prosiect yn golygu cydweithio agos gyda grwpiau rhanddeiliaid rhanbarthol i ddatblygu cynllun cyflenwi manwl ar gyfer pob cynllun. Bydd hyn yn rhoi fframwaith ar gyfer awdurdodau lleol a phartneriaid cyflenwi eraill i ddatblygu gwaith adeiladu er mwyn cyflawni'r cynlluniau ac ehangu cwmpas y Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol.

**Buddsoddiadau cyfalaf a grantiau eraill**

Mae diweddariad drafft o'r Canllaw Achos Busnes ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif wedi'i baratoi i sicrhau bod ystyriaeth systematig o sut y mae dysgwyr yn teithio i ysgolion a cholegau sy'n cael eu hariannu o dan y rhaglen. Bydd mynediad i gerdded a beicio yn enwedig yn ystyriaeth bwysig. Mae disgwyl i'r Canllaw newydd gael ei gyhoeddi yn ddiweddarach eleni.



Gall brosiectau teithio llesol fanteisio ar grantiau eraill, er enghraifft y Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol. Yn 2016, cafodd grant o £480 mil ei ddyfarnu o'r Rhaglen i ehangu a gwella cyfleusterau elusen sy'n canolbwyntio ar feicio hygyrch a chynhwysol.

## 5. Hyrwyddo a Newid Ymddygiad

### Teithiau Llesol

Teithio Llesol yw ein rhaglen i annog a hyrwyddo cerdded a beicio mewn ysgolion ledled Cymru. Cynhelir y rhaglen gan Sustrans ac mae ysgolion yn gwneud cais i fod yn rhan ohoni. Mae'r cysylltiad â'r ysgolion yn amrywio o gymorth dwys i ysgolion newydd i ddarparu cyngor ac adnoddau. Mae'r cyngor a'r gwasanaeth gwybodaeth ar gael i bob ysgol yng Nghymru ac mae'n boblogaidd iawn a galw mawr amdani. Rhwng Awst 2016 ac Awst 2017 roedd 74 o ysgolion yn rhan o'r rhaglen ar gam 103, gyda sesiynau ymgynghori penodol ar gyfer y Ddeddf Teithio Llesol a gwersi Llwybrau Diogel mewn 40 o ysgolion uwchradd eraill. Mae'r canlyniadau o'r arolwg blynyddol a gynhaliwyd fel rhan o'r rhaglen bellach yn dangos cynnydd o 6.5% mewn teithio llesol i'r ysgol wedi blwyddyn a 9.6% o gynnydd wedi dwy flynedd, yn ôl Adroddiad Interim Blynyddol Teithiau Llesol 2016/17.

Mae'r rhaglen hefyd wedi cefnogi cysylltiad yr awdurdodau lleol gydag ysgolion yn y prosesau mapio llwybrau a chynllunio'r rhwydwaith o dan y Ddeddf Teithio Llesol, gan gynnal gweithgareddau ystafell ddosbarth wedi'u cynllunio i fwydo i mewn i'r broses. Mae hefyd wedi cefnogi datblygiad y bidiau cyfalaf ar gyfer Llwybrau Diogel mewn Cymunedau, a ddatblygwyd



gyda thrafodaethau gyda disgyblion yn ganolog iddynt.

Mae Llawlyfr Pencampwyr wedi'i ddatblygu fel rhan o'r contract a bydd hyn ar gael i bob ysgol sy'n rhan o'r cynllun ysgolion Teithiau Llesol.

**Cerdded i'r Ysgol**

Cynhaliwyd y prosiect Cerdded i'r Ysgol yng Nghymru, a gomisiynwyd gyda Living Streets, rhwng mis Ionawr a Mawrth 2017, a chafodd y Pecyn ei lansio'n swyddogol gan y Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd y Cyhoedd yn Ysgol Gynradd Malpas ym mis Mai 2017.

Roedd y prosiect yn canolbwyntio ar Archwiliadau Llwybrau i'r Ysgol mewn tair ysgol gynradd i nodi'r problemau a'r gwelliannau y gellid eu gwneud i sicrhau bod y llwybrau cerdded i'w hysgolion yn fwy cyfforddus, cyfleus a diogel. Cafodd yr archwiliadau hyn eu defnyddio fel sail i ddatblygu pecyn y gellid ei ddefnyddio'n annibynnol i gynnal archwiliadau.

Mae'r pecyn ar gael i'w ddefnyddio gan bob ysgol ac mae'n adnodd gwerthfawr allai helpu i gael mwy o blant i gerdded a beicio i'r ysgol. Gellid ei ddefnyddio gan grwpiau cymunedol a sefydliadau eraill hefyd a'u haddasu i'w hamgylchiadau.

Cafodd y ddolen i'r pecyn ei anfon at bob awdurdod lleol yng Nghymru, ac mae ar gael ar Hwb.
(https://hwb.gov.wales/resources/tree?sort=created&language=cy)



### Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol

Er mwyn cefnogi'r Bwrdd Teithio Llesol, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi dod â sefydliadau sy'n rhan o hyrwyddo teithio llesol i'r ysgol at ei gilydd o fewn Grŵp Rhanddeiliaid Cenedlaethol Teithio Llesol i'r Ysgol. Bydd y Grŵp yn canolbwyntio ar ddatblygu rhaglen weithredu ar y cyd i gael mwy o bobl i gerdded a beicio i'r ysgol yng Nghymru, yn gysylltiedig â'r Cynllun Gweithredu Teithio Llesol. Mae rhanddeiliaid wedi cydweithio i greu adnodd gweledol ac animeiddio, O'r Drws i'r Ddesg, i annog partneriaid i gydweithio i wneud newidiadau bychain yn lleol, i gael effaith mawr ledled Cymru.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/PHW%20%27Doorstep%20to%20Desk%27%20Infographic_W3.pdf
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/page/93261

### Her Teithiau Iach i'r Gwaith

Nod yr Her Teithiau Iach i'r Gwaith, dros y dair her, yw ysgogi gweithwyr ledled Cymru i ddewis ffyrdd llesol o deithio i'r gwaith yn hytrach na theithio yn eu ceir ar eu pennau eu hunain.

Dechreuodd Her Un ym mis Mai 2016 a Her Dau ym mis Hydref 2016. Ar draws y ddwy her sy'n digwydd yn ystod 2016/17, cofrestrodd dros 1,800 o weithwyr o 89 o wahanol weithleoedd, gan gofnodi 13,000 o deithiau a disodli 30% o deithiau mewn ceir gyda cherdded a beicio.

### Milltir y Dydd

Mae'r fenter Milltir y Dydd yn anelu at wella iechyd a lles corfforol, emosiynol a chymdeithasol plant ysgolion cynradd. Mae gwefan ddwyieithog Milltir y Dydd wedi ei chreu gan Lywodraeth Cymru a Iechyd Cyhoeddus Cymru i helpu i gefnogi'r fenter yng Nghymru. Cafodd y wefan ei lansio ar 27 Ionawr 2017, gyda phob ysgol gynradd yng Nghymru yn cael eu hannog, gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg a'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd y Cyhoedd, i gymryd rhan.

Mae'r diddordeb yn Milltir y Dydd wedi cynyddu yn ddiweddar gyda o leiaf 20 o wledydd yn cymryd rhan. Mae bron i 100 o ysgolion bellach wedi cofrestru i'r fenter yng Nghymru. Er nad yw'n bosib dweud bod Milltir y Dydd yn deithio llesol, mae'n sicrhau bod mwy o bobl yn gwerthfawrogi cerdded ac yn ei wneud y peth normal i'w wneud. Drwy hyn, mae ganddo'r posibilrwydd o annog mwy o blant a'u teuluoedd i ddechrau cerdded fel ffordd o deithio pob dydd.

Rydym yn parhau i godi ymwybyddiaeth o deithio llesol drwy erthyglau mewn cylchlythyrau addysgol i ysgolion ac ar Hwb, y Porthol Dysgu Digidol i Gymru.

### Dewch i Gerdded Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cefnogi'r rhaglen Dewch i Gerdded sy'n anelu at gynyddu lefelau gweithgarwch corfforol oedolion yng Nghymru trwy drefnu gwahanol fathau o deithiau cerdded lleol. Yn 2016-17 darpawyd cyfanswm o £0.26 miliwn o gyllidebau Iechyd a Chwaraeon.

## 6. Sgiliau a Hyfforddiant

### Cefnogaeth i awdurdodau lleol

Gan mai dyma'r cam cyntaf ar gyfer gweithredu'r dyletswyddau mapio o dan y Ddeddf Teithio Llesol, mae swyddogion yn ceisio helpu'r awdurdodau lleol mewn amrywiol ffyrdd. Un o'r ffyrdd hyn oedd trwy weithdai rhanbarthol. Ym mis Mai/Mehefin 2016 cynhaliwyd pedwar digwyddiad roddodd y cyfle i drafod materion a gododd wrth baratoi y Mapiau Rhwydwaith Presennol a mapio'r broses ar gyfer y Mapiau Rhwydwaith Integredig. Cyfarfu swyddogion hefyd gyda grwpiau o awdurdodau lleol yn rhanbarthol pan ofynnwyd iddynt drafod cynnydd a phroblemau presennol.

### Prosiect mapio rhwydwaith integredig

Cafodd Sustrans eu comisiynu i gynnal prosiect i gefnogi'r broses o baratoi Mapiau Rhwydwaith Integredig, gan gydweithio gydag awdurdodau lleol. Cwblhawyd y prosiect ym mis Mawrth 2017 a chynhaliwyd gweithdai yng Nghaerdydd a Chyffordd Llandudno ar ddiwedd 2016 er mwyn helpu awdurdodau lleol i baratoi eu Mapiau Rhwydwaith Integredig. Daeth llawer o bobl i'r gweithdai gan roi cyfle i awdurdodau lleol a Sustrans ddosbarthu arferion gorau.

### Y system mapio teithio llesol

Comisiynwyd system fapio gennym sydd ar gael i bob awdurdod lleol a chafodd ei llwytho ymlaen llaw gyda data sylfaen o arolygon ar gyfer yr holl seilwaith cerdded a beicio yng Nghymru. Yn dilyn cyflwyno'r Mapiau Rhwydwaith Presennol, cafodd y system ei newid a'i gwella i wneud y system yn barod ar gyfer



paratoi y Mapiau Rhwydwaith Integredig. Cafodd swyddogaethau ychwanegol eu hychwanegu i'r system fesul cam i ganiatáu i awdurdodau lleol ddechrau ar eu llwybrau rhwydwaith integredig.

Mae swyddogion wedi cynnal nifer o weminarau gydag awdurdodau lleol i ddangos be mae'r wefan yn gallu ei wneud a sut i greu llwybrau newydd ar gyfer y Mapiau Llwybrau Integredig.

### Seminar Busnes

Mae gan sector yr amgylchedd adeiledig swyddogaeth hollbwysig wrth alluogi teithio llesol trwy gynnwys y seilwaith a chyfleusterau cerdded a beicio o'r cychwyn yn eu cynlluniau a thrwy wneud penderfyniadau o ran lleoliadau sy'n galluogi cerdded a beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus gan staff, cwsmeriaid ac ymwelwyr.

Cynhaliwyd seminar busnes dros ginio wedi ei hanelu at y sector amgylchedd adeiledig ym mis Ionawr 2016. Pwysleisiodd Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd, Edwina Hart AC, yn ei haraith, yr angen i fusnesau fod yn broactif ac yn uchelgeisiol. Rhoddodd siaradwyr y gymuned fusnes enghreifftiau o sut y mae cynllunio ar gyfer teithio llesol a chynaliadwy wedi gwneud synnwyr busnes iddynt hwy.

(Gallwch ddod o hyd i fwy o fanylion yma: http://gov.wales/topics/transport/walking-cycling/activetravelact/business-conference-2016/?skip=1&lang=cy)

**Y Gynhadledd Teithio Llesol**

Cynhaliwyd y Gynhadledd Teithio Llesol ddiweddaraf fis Chwefror 2017, gan ddod ag ymarferwyr sy'n rhan o weithredu'r ddeddf at ei gilydd, gyda dulliau a gwybodaeth ar arfer gorau. Gwnaeth yn bosibl hefyd i weithwyr proffesiynol o amrywiol sectorau gefnogi teithio llesol trwy gynnig amrywiol sesiynau o dystiolaeth ymarferol a chryf.

Roedd cyfle i drafod y dystiolaeth ddiweddaraf, dysgu o enghreifftiau ymarferol, rhoi cynnig ar ddulliau sy'n cael eu hannog, ac yn eu trafod a chael dealltwriaeth mwy manwl o'r canllawiau sydd ar gael.

Rhoddodd Rebecca Evans AC, y Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol, anerchiad i'r gynhadledd, gan drafod ei huchelgeisiau ar gyfer teithio llesol.
(http}://gov.wales/topics/transport/walking-cycling/activetravelact/implementation/?lang=cy)

**Rhwydwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru**

Bu tîm Teithio Llesol Llywodraeth Cymru yn cydweithio'n agos â Iechyd Cyhoeddus Cymru i drefnu'r Seminar "Cynllunio ar gyfer Iechyd a Lles Gwell".

Roedd y seminar yn anelu at godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gynllunio, teithio llesol a iechyd i hysbysu cynadleddwyr am dystiolaeth gyfredol a thystiolaeth sy'n datblygu, ac i nodi blaenoriaethau ar gyfer ymchwil ac arferion ar gyfer y dyfodol. Cynhaliwyd gweithdai ar bynciau amrywiol i edrych ar hyrwyddo teithio llesol ymysg grwpiau penodol o'r boblogaeth, a sut y gall gweithio ar draws adrannau helpu i lywio gyda chynllunio y rhwydwaith teithio llesol.

Agorwyd y seminar gan Rebecca Evans AC, Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
(https://www.publichealthnetwork.cymru/cy/cymerwch-ran/past-event/planning-for-better-health-and-wellbeing/)



## 7. Monitro a Gwerthuso

### Lefelau teithio llesol yng Nghymru

Rydym yn monitro'r cynnydd o gyflawni amcanion Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 trwy ddangosyddion allweddol. Caiff y data ei gasglu drwy'r Arolwg Cenedlaethol. Cafodd yr Arolwg Cenedlaethol ei atal am flwyddyn yn 2015, gan iddo gyfuno â nifer o arolygon eraill.

Fel mesur dros dro o i gael rhywfaint o ddata 2015, ychwanegwyd gwestiynau holiadur teithio llesol i arolwg arall, oedd yn cynnwys cyfweliadau gydag oddeutu 1000 o bobl 16+ ledled Cymru. Gofynnwyd cwestiynau oedd yn union yr un fath â'r rhai a ddefnyddiwyd yn yr Arolwg Cenedlaethol, ond wedi'u cyfyngu, ac oherwydd y fethodoleg wahanol a maint y sampl, nid yw'n bosib cymharu'r data ar gyfer 2015 gyda data y flwyddyn flaenorol. Roedd nifer y rhai sy'n beicio ar gyfer teithio llesol o'r arolwg hwn yn sylweddol uwch na'r rhai o arolwg cenedlaethol 2014, ond oherwydd anghysonderau gydag Arolwg Cenedlaethol Cymru, sy'n arolwg awdurdodol a gynlluniwyd gan Ystadegau Cenedlaethol, ni argymhellir defnyddio'r ffigurau hyn i gymharu. Er gwybodaeth, y ffigurau oedd:

- 10% oedd cyfran y boblogaeth (16 oed a throsodd) sy'n beicio yn rheolaidd ar gyfer teithio llesol; sef o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos.
- 54% oedd cyfran y boblogaeth (16 oed a throsodd) sy'n cerdded yn rheolaidd at ddibenion teithio llesol; sef o leiaf sawl gwaith yr wythnos (3+). (Roedd 19% arall yn cerdded 1-2 waith yr wythnos).

Dechreuodd yr Arolwg Cenedlaethol newydd yn 2016. Gan bod y data yn seiliedig ar yr arolwg sampl, nid yw'r newidiadau bychain o un flwyddyn i'r llall o ganrannau bychain yn ddigon pwysig yn ystadegol ac ni fyddai ystadegwyr yn cofnodi'r rhain fel gostyngiadau neu gynnydd o flwyddyn i flwyddyn.

**Prif Ddangosyddion 2016**

- Cyfran y boblogaeth (16 oed a throsodd) sy'n beicio ar gyfer teithio llesol o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos: 5%.
- Cyfran y boblogaeth (16 oed a throsodd) sy'n cerdded at ddibenion teithio llesol o leiaf unwaith neu ddwywaith yr wythnos: 61%
- Cyfran y boblogaeth (16 a throsodd) sy'n beicio at ddibenion teithio llesol o leiaf deirgwaith yr wythnos: 3%
- Cyfran y boblogaeth (16 oed a throsodd) sy'n cerdded at ddibenion teithio llesol o leiaf deirgwaith yr wythnos: 47%
- Cyfran y plant ysgolion cynradd sydd fel arfer yn cerdded neu feicio i'r ysgol. 43%
- Cyfran y plant ysgolion cynradd sydd fel arfer yn cerdded neu feicio i'r ysgol. 35%
- Nifer y beicwyr ar y ffordd sydd wedi'u niweidio'n ddifrifol ac sy'n gorfod mynd i'r ysbyty. 236

Bydd Bwletin Ystadegol Teithio Llesol gyda dadansoddiad manylach o ddata yr Arolwg Cenedlaethol yn cael ei gyhoeddi'n ddiweddarach yn 2017.

## Atodiad – Y diweddaraf am y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol

| | Rhif | Cam Gweithredu | Arweinydd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| Arweinyddiaeth | 1 | Mae Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth yn darparu goruchwyliaeth weinidogaethol dros weithrediad y Ddeddf Teithio Llesol a'r Cynllun Gweithredu ac mae'n hyrwyddo cydweithrediad ar draws adrannau. Adroddir am enghreifftiau o weithgarwch traws-adrannol y Gweinidog drwy'r adroddiad blynyddol. | GEGTh (Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth | Bellach wedi symud i'r Gweinidog Gwasanaethau Cymdeithasol a Iechyd y Cyhoedd. Mae'r GGCIC yn gofalu am y Bwrdd Teithio Llesol. Gohebiaeth gyda phob Ysgrifennydd y Cabinet ar agweddau teithio llesol yn eu portffolios penodol. |
| | 2 | Mae'r Bwrdd Teithio Llesol yn darparu goruchwyliaeth strategol genedlaethol ar y modd y mae'r Ddeddf Teithio Llesol a'r Cynllun Gweithredu yn cael eu cyflawni ac mae'n defnyddio gallu sefydliadol ei aelodau i hyrwyddo teithio llesol. | BTLl (Bwrdd Teithio Llesol) | Caiff y Bwrdd Teithio Llesol ei gadeirio gan uwch-swyddog ac mae'n cyfarfod yn rheolaidd, â'r Gweinidog yn bresennol. |
| | 3 | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol er mwyn cyfleu sut y mae teithio llesol yn cefnogi'r nodau llesiant yn uniongyrchol ac o fudd i ddarpariaeth draws-adrannol. | LlC - Trafnidiaeth<br>CLlLC | Ysgrifennodd y Gweinidog at Arweinwyr yr ALl. Edrychodd gweithdai rhanbarthol yn ystod Gwanwyn 2016 ar y cysylltiadau gyda'r CLlLC: Gweithdy CLlLC yng Nghynhadledd Teithio Llesol 2017. |
| Deddfwriaeth, Safonau a Dulliau | 4 | Byddwn yn parhau i adolygu Is-ddeddfwriaeth teithio llesol, gan ddysgu oddi wrth gyfnod cynnar gweithredu'r Ddeddf Teithio Llesol. | LlC - Trafnidiaeth | Cyfarwyddyd wedi ei roi i ddiwygio'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno Mapiau Llwybrau Presennol a Mapiau Rhwydwaith Integredig mewn ymateb i broblemau sy'n cael effaith ar yr ymgynghoriad. |
| | 5 | Byddwn yn ystyried beth yw'r ffordd orau i ddefnyddio'r pwerau trafnidiaeth newydd er mwyn gwella diogelwch ar y ffyrdd yng Nghymru, yn enwedig i gerddwyr a beicwyr. Byddwn yn ystyried cyfleoedd deddfwriaethol eraill ar gyfer cryfhau teithio llesol pan fyddant yn codi. | LlC - Trafnidiaeth | Mae Deddf Cymru yn cynnwys nifer o bwerau trafnidiaeth newydd, gan gynnwys terfynau cyflymder cenedlaethol, croesfannau i gerddwyr ac arwyddion, ac mae disgwyl iddynt ddod i rym ym mis Ebrill 2018. |
| | 6 | Byddwn yn dal i adolygu'r Canllawiau Dylunio, gan adeiladu ar adborth gan awdurdodau lleol ar y defnydd o elfennau dylunio gwahanol. | LlC - Trafnidiaeth | Gwaith paratoadol cynnar ar adnewyddu'r Canllaw Dylunio wedi dechrau, adborth gan ALlau, gweithdy yng Nghynhadledd 2017. |
| | 7 | Bydd System Rheoli Data Teithio Llesol yn cynnig adnodd ar y cyd i gofnodi, rheoli a chyhoeddi gwybodaeth am seilwaith teithio llesol yng Nghymru. Byddwn yn edrych i mewn i ffyrdd o ddarparu mynediad cyhoeddus at wybodaeth allweddol. | LlC – Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi<br>LlC - Trafnidiaeth | Y system fapio wedi ei thrawsnewid. Bydd 'Lle' yn gweithredu fel porthol cyhoeddus ledled Cymru ar gyfer gwybodaeth am lwybrau. |
| | 8 | Byddwn yn ymgorffori ystyriaeth o effeithiau iechyd mewn WelTAG diwygiedig. | LlC - Trafnidiaeth | Ymgynghori ar y WelTAG diwygiedig sy'n cael ei gwblhau i'w gyhoeddi yn ystod hydref 2017. |
| | 9 | Byddwn yn ystyried a fyddai TAN 18: Trafnidiaeth a TAN 12: Dylunio yn elwa o gael eu diweddaru i hybu teithio llesol ymhellach drwy'r system gynllunio. | LlC - Trafnidiaeth | Cryfhau Teithio Llesol ym Mholisi Cynllunio Cymru diwygiedig a TAN 12, a bydd yn cael ei adlewyrchu ymhellach yn ein hadolygiad mwy cyflawn o'r Polisi Cynllunio. Gohebiaeth a chyfarfod rhwng y Gweinidog GGCIC ac Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig i drafod y cyfleoedd am gysylltiadau agos. |

## Atodiad – Y diweddaraf am y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol

| | Rhif | Cam Gweithredu | Arweinydd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | 10 | Fel rhan o gyflwyno'r Cwricwlwm yng Nghymru, byddwn yn annog ysgolion i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd teithio llesol, a sicrhau iechyd a llesiant disgyblion. | LlC - Addysg | Fframwaith ar gyfer Cwricwlwm Newydd yn cael ei ddatblygu gan weithgorau gan dynnu ar waith mewn ysgolion arloesi. Bydd teithio llesol yn cael ei ystyried fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. |
| | 11 | Byddwn yn ystyried sut y gellir cryfhau elfennau teithio llesol y Safon Iechyd Gorfforaethol a Chynlluniau Gwobr Ansawdd Genedlaethol Rhwydwaith Cymru o Ysgolion Iach. | LlC - Iechyd<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru | Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi sefydlu gweithgor teithio llesol i'r ysgol sy'n dod â phartneriaid sydd â diddordeb mewn hyrwyddo cerdded a beicio i'r ysgol o wahanol sefyllfaoedd at ei gilydd i sicrhau monitro a bod negeseuon yn gyson. |
| Seilwaith | 12 | Byddwn yn datblygu'r strategaeth gyllido ar gyfer buddsoddi mewn teithio llesol. | LlC - Trafnidiaeth | Parhaus. Buddsoddiad sylweddol yn 2016/17 a chyllid wedi ei drefnu ar gyfer 2017/18. |
| | 13 | Byddwn yn ystyried ac yn gwella'r ddarpariaeth ar gyfer cerddwyr a beicwyr pryd bynnag y byddwn yn gwneud buddsoddiadau uniongyrchol mewn seilwaith trafnidiaeth. | LlC - Trafnidiaeth | Mae teithio llesol yn rhan annatod o gyflawni'r prosiect yn gyffredinol: bydd WelTAG yn cryfhau mewnbwn annibynnol o deithio llesol. |
| | 14 | Byddwn yn parhau i roi cyllid grant ar gael ar gyfer cynlluniau teithio llesol lleol o safon uchel. | LlC - Trafnidiaeth | £11 miliwn wedi'i ddyrannu i gynlluniau ALl yn 2016/17. |
| | 15 | Byddwn yn ei gwneud yn ofynnol ystyried mynediad ar gyfer cerddwyr a beicwyr cyn y byddwn yn cefnogi buddsoddiadau cyfalaf. | LlC | Ystyriaethau Teithio Llesol yn cael eu bwydo i ganllaw achos busnes y diwygiad o'r copi drafft o Ysgolion yr 21ain Ganrif diwygiedig sydd i'w gyhoeddi yn ystod hydref 2017. Iechyd. |
| Hyrwyddo a Newid Ymddygiad | 16 | Byddwn yn datblygu pecyn offer hybu ac ymgysylltu teithio llesol fydd wedi ei fwriadu ar gyfer awdurdodau lleol, adrannau Llywodraeth Cymru ac ymarferwyr eraill. | LlC - Trafnidiaeth | Cwmpas arfaethedig wedi'i drafod, angen datblygu'r cysyniad ymhellach. |
| | 17 | Byddwn yn datblygu'r strategaeth gyfathrebu genedlaethol ar gyfer teithio llesol. | LlC - Trafnidiaeth | Wrthi'n datblygu. |
| | 18 | Byddwn yn gweithio gyda Traveline Cymru i weld sut i wella a marchnata eu cynllunydd teithiau llesol. | LlC - Trafnidiaeth<br>LlC - TGCh | Mae Traveline Cymru yn gwella eu cynllunydd teithiau, gan gynnwys elfennau teithio llesol. |
| | 19 | Byddwn yn cyllido rhaglen fydd yn hybu teithio llesol mewn ysgolion ac yn adolygu'r hyfforddiant i gerddwyr a beicwyr. Byddwn yn annog cysylltiadau agosach rhwng rhaglenni ategol seiliedig yn yr ysgol. | LlC - Trafnidiaeth<br>LlC - Iechyd<br>LlC - NR | Teithiau Llesol yw'r rhaglen amlycaf ar gyfer hybu teithio llesol mewn ysgolion, lefelau cysylltu fesul cam gyda ysgolion a galw mawr am gyngor ac adnoddau'n cael eu ddarparu i bob ysgol sydd â diddordeb. Pecyn archwilio cerdded i'r ysgol yn ei ategu. Gwaith i adolygu hyfforddiant i gerddwyr ar y gweill, adolygu hyfforddiant i feicwyr wedi adolygiad ledled Prydain o safonau cenedlaehtol. |

# Atodiad – Y diweddaraf am y Cynllun Gweithredu Teithio Llesol

| | Rhif | Cam Gweithredu | Arweinydd | Cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| | 20 | Byddwn yn parhau i adolygu swyddogaeth y cydgysylltwyr cynlluniau teithio er mwyn cynorthwyo sefydliadau i gynyddu nifer y rheiny sy'n manteisio ar deithio llesol a lleihau'r defnydd o geir, ynghyd â Her Teithio Cymru. Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i ganfod rhaglenni ategol ac ymyriadau newid ymddygiad ychwanegol, addas ac rydym yn bwriadu eu treialu. | LlC - Trafnidiaeth<br>LlC - Iechyd | Cydgysylltwyr cynllun teithio a thîm her teithio yn cydweithio ar gysylltiadau â gweithleoedd, cyllid ar gyfer swydd cydgysylltydd cynllun teithio yn dod i ben ym mlwyddyn ariannol 2016/17. |
| | 21 | Byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i fonitro gwrthdaro rhwng grwpiau o ddefnyddwyr cludiant ac yn nodi mesurau i wella'r rhyngweithio rhyngddynt fel bo angen. | LlC - Trafnidiaeth<br>BTLl<br>Yr heddlu<br>CLlLC | Heb ddechrau eto. |
| Sgiliau a Hyfforddiant | 22 | Byddwn yn cynnig hyfforddiant sut i ddefnyddio'r Canllawiau Dylunio ac yn galluogi dysgu rhyngweithiol ar agweddau eraill ar deithio llesol fel bo angen. | LlC - Trafnidiaeth | Bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei ddatblygu yn dilyn cwblhau'r diweddariad o'r Canllawiau Dylunio. |
| | 23 | Byddwn yn datblygu mecanweithiau i alluogi ymarferwyr i rannu profiad a rhoi adborth. | LlC - Trafnidiaeth | Cynhadledd flynyddol a chydweithio gyda cynhadledd Iechyd y Cyhoedd: dwy gyfres o gyfarfodydd Rhanbarthol wedi'u cynnal yn 2016. |
| | 24 | Byddwn yn chwilio am gyfleoedd i godi ymwybyddiaeth o'r Ddeddf a'i nodau a'i gofynion ymhlith gweithwyr proffesiynol trafnidiaeth, iechyd ac addysg, a chynghorwyr lleol. | LlC - Trafnidiaeth<br>BTLl | Cynhadledd Iechyd y Cyhoedd ym mis Tachwedd 2016 wedi dod â phroffesiynau gwahanol at ei gilydd yn llwyddiannus. Bydd y pecyn yn cael ei ddylunio i gefnogi ymarferwyr mewn gwahanol sectorau. |
| Monitro a Gwerthuso | 25 | Byddwn yn datblygu targedau teithio llesol ac yn gweithio gydag awdurdodau lleol i ddatblygu fframwaith monitro ac adrodd lleol cyson. | LlC - Trafnidiaeth<br>LlC - Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi<br>CLlLC | Mae monitro teithio llesol wedi'i sicrhau fel rhan o'r Arolwg Cenedlaethol. Targedau ar gyfer teithio llesol i ysgolion yn cael eu trafod ar hyn o bryd. |
| | 26 | Byddwn yn parhau i'w gwneud yn ofynnol i gynlluniau sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru gael eu monitro a'u gwerthuso'n effeithiol. | LlC - partneriaid darparu cludiant | Gwerthuso'n rhan o'r prosiectau Teithiau Llesol a Cerdded i'r Ysgol, monitro cynlluniau grantiau cyfalaf mwy trwy ddulliau cyfrif mewnol. |
| | 27 | Byddwn yn edrych i mewn i gyfleoedd i alluogi ac annog rhannu canlyniadau monitro a gwerthuso. | LlC - Trafnidiaeth<br>BTLl | Wrth i awdurdodau lleol ddechrau casglu tystiolaeth, bydd hyn yn cael ei ddatblygu, o bosib fel rhan o'r pecyn. |
| | 28 | Caiff y Cynllun Gweithredu ei fonitro gan y Bwrdd Teithio Llesol yn gyson, a chaiff diweddariad ei gynnwys ym mhob Adroddiad Blynyddol. | LlC - Trafnidiaeth<br>BTLl | Parhaus. |

# Teithio LLesol

## Adroddiad Blynyddol 2016/17

© Hawlfraint y Goron 2017
WG33244 ISBN digidol 978-1-78859-787-6